**BWRDD PROSIECT AR Y CYD – CYLCH GORCHWYL**

**UNED POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD GWYNEDD A MÔN**

**Prif bwrpas**

Rhoi mewnbwn strategol i'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar y cyd a sicrhau bod yr Uned Polisi Cynllunio ar y cyd yn cadw at yr amserlen yn y Cytundeb Cyflawni.

Cymryd trosolwg o waith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a gwneud penderfyniadau gweithredol mewn cysylltiad â'r gwasanaeth darparir gan yr Uned i'r ddau Awdurdod.

Bydd y Bwrdd Prosiect ar y cyd yn:

1. Sicrhau fod amcanion strategol Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn cael eu bwydo i mewn i'r broses o baratoi'r CDLl ar y cyd
2. Sicrhau fod buddion trigolion Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn cael ystyriaeth deg yn y broses o baratoi'r CDLl ar y cyd
3. Derbyn, a rhoi sylwadau ar adroddiadau y cyflwynir gan y Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y cyd) a'r Uwch Reolwr, Gwasanaeth Amgylcheddol (Cyngor Gwynedd) ar y gwaith o baratoi'r CDLl ar y cyd ac ar waith yr Uned yn gyffredinol.
4. Sicrhau fod y cynnydd yn y gwaith o baratoi'r CDLl yn unol â'r amserlen a'r manylion yn y Cytundeb Cyflawni a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru.
5. Derbyn, gwneud sylwadau a gwneud penderfyniadau ar adroddiadau gan y Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y cyd) a'r Uwch Reolwr, Gwasanaeth Amgylcheddol (Cyngor Gwynedd) ar faterion gweithredol all effeithio'r gwasanaeth a ddarparir gan yr Uned.

**Mandad**

- Bod yn grŵp mewnol o Swyddogion Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn
- Hwyluso'r gwaith o baratoi a chwblhau CDLl ar y cyd a sicrhau gwasanaeth polisi cynllunio o'r safon orau bosib i'r ddau Awdurdod.

**Cyfansoddiad**

Bydd y Bwrdd Prosiect ar y cyd yn cynnwys 2 Swyddog o Gyngor Gwynedd a 2 Swyddog o Gyngor Sir Ynys Môn sef:

- Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyngor Gwynedd)
- Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyngor Sir Ynys Môn)

- Pennaeth Adran Rheoleiddio (Cyngor Gwynedd)
- Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Cyngor Sir Ynys Môn)

Bydd mewnbwn y Cyfarwyddwyr Strategol yn gyfyngedig i **1** uchod a bydd mewnbwn y Penaethiaid yn cynnwys **2, 3 a 4** yn ogystal ag **1**.

Bydd nifer o faterion fydd yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Prosiect ar y cyd yn ymwneud a **2, 3 a 4** uchod, ac felly mae'n debygol y bydd ond angen cyfarfodydd llawn o'r Bwrdd Prosiect ar y cyd ar yr adegau allweddol yn y broses o baratoi'r CDLl ar y cyd.

**Cadeirydd ac Is-gadeirydd**

Bydd y Swyddogion yn cael eu hethol yn ystod cyfarfod cyntaf y Bwrdd Prosiect ar y cyd.

**Cworwm**

Cydnabyddir na fydd pob Swyddog sydd wedi'u hadnabod ar gael i fynychu pob cyfarfod a gynhelir yn ystod y broses. Er mwyn i gyfarfod o'r Bwrdd Prosiect ar y cyd gael ei gynnal, fe ddylid cael cworwm o 2 Swyddog i gynnwys Pennaeth Adran Rheoleiddio (Cyngor Gwynedd) a Phennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Cyngor Sir Ynys Môn), gan y bydd materion **2, 3 a 4** yn cael eu hadrodd i bob cyfarfod.

**Gwneud penderfyniadau**

Bydd unrhyw faterion lle na ellir cael consensws neu gytundeb arno, yn cael eu delio yn unol â'r drefn Datrys Anghydfod a gyfeirir ato yn y Cytundeb dyddiedig ********* rhwng y Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

**Amledd**

Bydd y Bwrdd Prosiect ar y cyd yn cyfarfod o leiaf 4 gwaith y flwyddyn, a bydd dyddiadau'r cyfarfodydd hyn yn cael eu sefydlu gan roi gymaint o rybudd a phosib i Swyddogion y Bwrdd Prosiect ar y cyd.

**Rhaglenni**

Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd) fydd yn gyfrifol am gytuno ar raglen mewn ymgynghoriad gyda'r Uwch Reolwr, Gwasanaeth Amgylcheddol (Cyngor Gwynedd) a chadeirydd y Bwrdd Prosiect ar y cyd.

Bydd Swyddogion y Bwrdd Prosiect ar y cyd yn derbyn yr holl bapurau cyn y cyfarfodydd. Bydd hefyd Swyddog o'r uned Bolisi ar y cyd yn bresennol ym mhob cyfarfod er mwyn cofnodi'r drafodaeth a'r penderfyniadau.

**Mecanwaith**

Bydd mewnbwn strategol y Bwrdd Prosiect ar y cyd i'r broses o baratoi'r CDLl yn cael eu cyflwyno i'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd gan y Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd). Bydd y Panel wedyn yn adrodd i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd.

Bydd penderfyniadau'r Bwrdd Prosiect ar faterion gweithredol yr Uned Polisi Cynllunio ar y cyd, yn cael eu gweithredu gan y Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y cyd) a / neu'r Uwch Reolwr, Gwasanaeth Amgylcheddol (Cyngor Gwynedd).